# Canllaw arfer da: gwarchod dyfrgwn yn ystod gweithrediadau rheoli coetir a gwaith coed

*Fersiwn 1.0 Mai 2026*

Os ydych chi'n dibynnu ar ddilyn arferion da i gadw o fewn y gyfraith, yna:

- mae'n **rhaid** i chi gymryd mesurau ataliol i warchod dyfrgwn
- **dylech** ddilyn cymaint o'r pum cam gweithredu gorau i wella cynefin i ddyfrgwn ag y gallwch

## Cyflwyniad

Mae'r dyfrgi Ewrasiaidd (neu'r dyfrgi Ewropeaidd) yn famal lled-ddyfrol ac yn ddangosydd allweddol o iechyd ecosystem dŵr croyw. Yng Nghymru, mae'r rhywogaeth wedi gwella'n sylweddol ar ôl iddi bron â diflannu yn y 1970au, pan oedd llygredd, colled cynefinoedd ac erledigaeth wedi lleihau'r poblogaethau'n ddifrifol. Roedd amddiffyniad cyfreithiol a gwaharddiad plaladdwyr organoclorin niweidiol yn allweddol er mwyn gwrthdroi'r dirywiad hwn.

Mae dyfrgwn bellach wedi'u gwasgaru'n eang ledled Cymru a gellir disgwyl iddynt fod yn bresennol ym mhob dalgylch afon. Maent yn defnyddio afonydd, nentydd, llynnoedd, camlesi, gwlyptiroedd a phyllau â pharodrwydd, ynghyd ag aberoedd arfordirol a glannau creigiog, yn enwedig lle mae dŵr croyw ar gael ar gyfer ysgrafellu. Lle mae coetir wedi'i gysylltu â chynefinoedd o'r fath, bydd dyfrgwn yn ei feddiannu â pharodrwydd, gan achub ar fannau gorffwys cysgodol, tawel a safleoedd bridio ynddynt. Gall gwalau (mannau gorffwys o dan y ddaear) fod o fewn systemau gwreiddiau coed, o dan blatiau gwreiddiau, o fewn twneli yn y glannau, ac o fewn siambrau mewn pentyrrau o gerrig mawr a boncyffion. Gallant hefyd ddefnyddio gwelyau (mannau gorffwys uwchben y ddaear) a all fod o fewn gorchudd llystyfiant fel prysgwydd helyg, rhododendron, dryslwyni mieri, gwelyau cyrs a gwlyptiroedd.

Bydd dyfrgwn yn defnyddio gwalau i fridio ynddynt os ydynt o faint ac ansawdd digonol. Bydd safle bridio yn cynnwys o leiaf un wâl o'r fath, a elwir yn ffau enedigol, lle mae cenawon yn cael eu geni a'u magu o fewn ardal fwy o gynefin tawel (o leiaf 0.5 hectar) lle gall y cenawon ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i ddod yn annibynnol. Mae safleoedd bridio fel arfer yn cynnwys gorchudd trwchus fel dryslwyni, planhigfeydd ifanc llawn chwyn, pentyrrau hen bren a phentyrrau o foncyffion, grwpiau o goed a chwalwyd gan y gwynt,

systemau gwreiddiau mawr ar y lan, boncyffion gwag, neu gellïoedd o lystyfiant ffen twmpathog, tal.

Mae dyfrgwn yn ysglyfaethwyr manteisgar, gan ffafrio rhywogaethau ysglyfaeth mawr, cyfoethog mewn maethynnau fel llyswennod a salmonidau, ond hefyd yn bwyta amffibiaid a chramenogion. Maent yn dibynnu ar gynefinoedd dŵr croyw i fforio a glanhau eu blew, hyd yn oed pan fyddant yn byw mewn amgylcheddau arfordirol. Mae cynefinoedd dyfrol amrywiol Cymru yn darparu cyflenwad bwyd cyfoethog, gan gefnogi presenoldeb parhaus y rhywogaeth.

Er gwaethaf eu hadferiad, mae monitro parhaus yn hanfodol i olrhain tueddiadau poblogaeth ac ymdrin â bygythiadau sy'n dod i'r amlwg fel llygredd dŵr, darnio cynefinoedd a marwolaethau ar y ffyrdd.

# Sut mae dyfrgwn yn cael eu gwarchod?

Mae dyfrgwn yn Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop o dan y Rheoliadau Cynefinoedd a'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi osgoi effeithio arnyn nhw mewn ffordd a fyddai'n drosedd, fel eu lladd neu eu hanafu'n fwriadol, neu eu haflonyddu'n fwriadol neu'n ddi-hid, yn enwedig i'r graddau y mae'n amharu ar eu gallu i oroesi neu fridio, neu'n effeithio'n sylweddol ar y boblogaeth leol.

Gallai difrodi neu ddinistrio safleoedd bridio a mannau gorffwys dyfrgwn fod yn drosedd hyd yn oed os nad ydych chi'n ei wneud yn fwriadol.

Gellir dod o hyd i ddyfrgwn ar y rhan fwyaf o gyrsiau dŵr yng Nghymru – maent yn rhywogaeth eang ei gwasgariad, ond nid ydynt yn gyffredin. Mae dyfrgwn yn bennaf yn nosol eu natur, felly gall fod yn anodd eu gweld nhw a'u safleoedd bridio a'u mannau gorffwys. Mae'r mesurau yn y canllaw hwn yn cydnabod hyn ac yn amlinellu'r hyn yr ydym yn ei ystyried yn gamau cymesur i sicrhau nad yw dyfrgwn yn cael eu niweidio yn ystod gweithrediadau rheoli coetir.

Mae'n annhebygol y bydd dyfrgwn yn goddef aflonyddwch hirfaith. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, bydd aflonyddwch o weithgareddau rheoli coetir fel cynaeafu yn gymharol anaml ac yn fyrhoedlog, a bydd coetiroedd fel arall yn darparu cynefin addas a chymharol heb eu tarfu arnynt yn yr hirdymor. Er bod dyfrgwn yn symudol iawn ac yn debygol o symud i ffwrdd o fygythiadau, efallai na fyddant yn gallu gwneud hyn tra bod ganddynt epil dibynnol mewn ffau enedigol. Fel gyda'r rhan fwyaf o rywogaethau, mae osgoi niwed yn ystod y cyfnod hollbwysig hwn yn eu cylch bywyd yn hanfodol ac yn elfen hollbwysig o weithio o fewn y gyfraith.

Os na allwch osgoi trosedd drwy ddilyn y canllawiau hyn, efallai y bydd ecolegydd cymwys yn gallu datblygu ffyrdd gweithio amgen, penodol i'r safle, i'ch galluogi i lynu wrth y gyfraith. Os nad yw hynny'n bosibl, efallai y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu rhoi trwydded i'ch galluogi i gyflawni eich gwaith yn gyfreithlon, ond dim ond os ydym yn hyderus nad oes dewis arall boddhaol ac na fydd yn niweidio statws cadwraethol ffafriol y rhywogaeth y gallwn wneud hynny. Dim ond fel dewis olaf y gellir rhoi trwyddedau Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop.

Mae'r canllaw arfer da hwn wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru fel canllaw o dan baragraff 43(9)(b) o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Mae hyn

yn golygu bod rhaid i lys ei ystyried mewn achosion sy'n ymwneud â throseddau aflonyddu ar ddyfrgwn, neu ddifrodi a dinistrio eu safleoedd bridio neu eu mannau gorffwys.

# A yw dyfrgwn yn defnyddio eich coetir?

Gyda Chymdeithas y Mamaliaid, rydym wedi cynhyrchu canllaw, *Rhywogaethau gwarchodedig mewn coetiroedd: canllaw maes ar gyfer rheolwyr coetiroedd yng Nghymru,* sy'n cynnwys cyngor penodol ar sut i gynnal arolygon i wirio am rywogaethau a warchodir.

## Gwirio am gofnodion

Os oes gennych gwrs dŵr yn eich coetir, dylech ragweld y gallai dyfrgwn fod yn bresennol. Os oes unrhyw gofnodion o ddyfrgwn o fewn 2 km i'ch coetir, yn enwedig cofnodion o ffeuau geni, bydd angen i chi fod yn arbennig o wyliadwrus.

Os byddwch yn gwneud cais am drwydded cwympo coed, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwirio am gofnodion. Os byddwn yn dod o hyd i gofnodion sy'n awgrymu presenoldeb y dyfrgwn, byddwn fel arfer yn ychwanegu amod amgylcheddol at eich trwydded cwympo coed yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddilyn y mesurau yn y canllaw hwn.

Os hoffech chi fod yn fwy sicr a oes dyfrgwn yn bresennol ai peidio, gallwch gomisiynu arolygydd cymwys i gynnal arolwg.

Os ydych chi eisoes yn gwybod bod dyfrgwn yn defnyddio'ch coetir, gallwch chi fwrw ymlaen ar y sail honno.

## Arolwg ar droed

Os oes gennych gwrs dŵr yn eich ardal waith, neu o fewn 200 metr iddi, a gallwch gael mynediad iddo, dylech wirio am arwyddion o ddyfrgwn o fewn 10 metr i'r cwrs dŵr yn ystod eich arolwg ar droed. Os dewch o hyd i arwyddion o ddyfrgwn, dylech hefyd barhau i fod yn wyliadwrus am dystiolaeth o ffeuau, gwalau neu fannau gorffwys wrth arolygu gweddill yr ardal waith.

Dylech wirio cyrsiau dŵr am arwyddion hyd yn oed os nad ydych wedi dod o hyd i gofnodion o ddyfrgwn.

Os oes gennych gofnod o ffau enedigol o fewn eich safle, bydd angen i chi geisio dod o hyd iddi a marcio ei lleoliad ar y ddaear. Os na allwch ddod o hyd i ffau enedigol sydd wedi’i chofnodi, bydd angen i chi geisio cyngor gan ecolegydd cymwys.

Cyn y gallwch chi weithredu'r mesurau ataliol yn yr adran nesaf, bydd angen i chi fod wedi sefydlu'r canlynol:

1. A oes cwrs dŵr o fewn 200 metr i'ch ardal waith ac, os felly:
    a. A oes unrhyw dystiolaeth bod dyfrgwn yn defnyddio'r cwrs dŵr hwnnw
    b. A oes gwalau neu fannau gorffwys eraill o fewn 30 metr i'ch ardal waith
    c. A oes tystiolaeth o ffau enedigol sy’n cael ei defnyddio o fewn 200 metr i'ch ardal waith, neu gofnodion diweddar o un

Os na allwch arolygu’n hyderus am arwyddion o ddyfrgwn, bydd angen i chi sicrhau gwasanaethau ecolegydd cymwys i’ch cynghori.

Os byddwch chi’n sylwi nad yw gwâl dyfrgi gofnodedig i'w gweld ar y ddaear mwyach, efallai y byddwch chi'n gallu diystyru'r cofnod hwnnw, er y dylech chi dal i ddisgwyl y bydd dyfrgwn yn debygol o fod yn bresennol yn yr ardal gyfagos. Fodd bynnag, er mwyn eich amddiffyn eich hun, dylech gofnodi'r dystiolaeth yn ofalus cyn i chi wneud y gwaith. Os na wnewch chi hyn, efallai na fyddwch yn gallu amddiffyn eich penderfyniad os cewch chi eich herio.

# Mesurau ataliol i warchod dyfrgwn

Os ydych chi'n dibynnu ar ddilyn yr arferion da hyn i gadw o fewn y gyfraith, bydd angen i chi lynu wrth y mesurau canlynol. Fel arall, efallai y bydd ecolegydd cymwys yn gallu awgrymu mesurau lliniaru penodol i'r safle a allai ganiatáu ichi wyro oddi wrth y mesurau safonol hyn heb achosi trosedd. Os nad yw hyn yn bosibl, efallai y bydd angen i chi newid eich cynlluniau neu ystyried gwneud cais am drwydded Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop.

Os byddwch yn dod o hyd i dystiolaeth o'r rhywogaeth yn annisgwyl yn ystod gwaith, dylech ystyried a allwch gymhwyso'r mesurau yn y canllaw hwn neu geisio cyngor gan ecolegydd cymwys.

Os ydych chi eisoes yn gweithredu o dan drwydded Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop, rhaid i chi barhau i ddilyn ei thelerau ac amodau.

Wrth weithio mewn ardal lle mae dyfrgwn yn debygol o fod yn bresennol, rhaid glynu wrth y canlynol:

**1. Gwarchod ffeuau geni sy’n cael eu defnyddio rhag difrod neu aflonyddwch**

- Rhaid cynnal llain glustogi heb ei tharfu o 200 metr o amgylch unrhyw ffau enedigol **sy’n cael ei defnyddio**.
- Os bydd ecolegydd cymwys yn cadarnhau nad yw'r ffau enedigol yn cael ei defnyddio mwyach gan ddyfrgwn ar gyfer bridio neu fagu cenawon, gellir lleihau’r llain glustogi i 30 metr.

**2. Gwarchod unrhyw wâl neu fan gorffwys dyfrgi a nodwyd rhag difrod a lleihau'r risg o aflonyddwch**

- Rhaid cynnal llain glustogi heb ei tharfu o 30 metr o amgylch unrhyw walau neu fannau gorffwys sydd wedi’u nodi. Bwriad y llain glustogi hon yn bennaf yw osgoi difrod ffisegol, ond mae hefyd yn lleihau'r risg o aflonyddwch, os yw’r ffau’n cael ei defnyddio.

**3. Osgoi dinistrio gwalau anhysbys yn ddamweiniol trwy adael llain dorlannol**

- Lle bo unrhyw arwydd o bresenoldeb dyfrgwn ar y cwrs dŵr (cofnodion, achosion o’u gweld neu arwyddion maes), dylid cynnal llain glustogi heb ei tharfu o o leiaf 10 metr o ymyl y dŵr neu ben y lan ar hyd yr holl gwrs dŵr. Bydd hyn yn lleihau'r risg o niweidio neu ddinistrio gwalau anhysbys, sydd fel arfer yn agos at ddŵr.

# Y pum cam gweithredu gorau i wella cynefin ar gyfer dyfrgwn

Gall rheoli eich coetir yn unol â Safon Coedwigaeth y DU ddod â buddion sylweddol i fywyd gwyllt. Byddai'r camau gweithredu isod yn arbennig o werthfawr i ddyfrgwn, a byddant hefyd yn cefnogi llawer o rywogaethau eraill:

### 1. Diogelu a gwella coridorau torlannol

Cynhaliwch orchudd coetir naturiol ar hyd afonydd a nentydd ac mewn gwlyptiroedd. Mae coetiroedd torlannol yn darparu lloches, safleoedd nythu, a chysgod sy'n cynnal poblogaethau o bysgod – ysglyfaeth allweddol i ddyfrgwn.

### 2. Cadw ac adfer nodweddion gwlyptiroedd

Diogelwch gyrff dŵr naturiol fel pyllau dŵr, ystumllynnoedd, a mannau corsiog o fewn coetiroedd neu wrth eu hymyl. Mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd fforio a mannau gorffwys, yn enwedig mewn parthau tawelach i ffwrdd o aflonyddwch dynol.

### 3. Cynnal llystyfiant trwchus ac ardaloedd heb eu tarfu

Gwnewch yn siŵr bod ardaloedd o brysgwydd trwchus, mieri, a choed wedi cwympo yn cael eu gadael heb eu tarfu. Mae'r rhain yn darparu safleoedd gorffwys a bridio diogel, yn enwedig i anifeiliaid benyw â chenawon.

### 4. Sicrhau cysylltedd rhwng cynefinoedd dyfrol a daearol

Mae dyfrgwn yn symud rhwng cyrsiau dŵr ac ardaloedd coetir, felly mae cynnal cysylltedd cynefinoedd yn hanfodol. Osgowch rwystrau fel ffensys neu ffyrdd heb groesfannau i fywyd gwyllt.

### 5. Lleihau aflonyddwch a llygredd dynol

Cyfyngwch ar bwysau gan weithgareddau hamdden, gweithrediadau coedwigaeth a dŵr ffo cemegol ger cyrff dŵr. Mae amgylcheddau glân a thawel yn hanfodol ar gyfer iechyd dyfrgwn a'u gallu i fridio'n llwyddiannus.

# Gwybodaeth bellach

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ddefnyddiol am dechnegau arolygu a dulliau rheoli cadarnhaol ar gyfer dyfrgwn yma:

Rhywogaethau gwarchodedig mewn coetiroedd: canllaw maes ar gyfer rheolwyr coetiroedd yng Nghymru

Ecology of the European Otter | Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM)

An evidence-based approach to identifying resting sites of Eurasian otter *Lutra lutra* from camera-trap and field-sign data – Findlay (2023) – *Wildlife Biology* – Wiley Online Library